# PWYLLGOR PENODI

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2019

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd)<br>Y Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-Gadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, K P Hughes, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws ac R Meirion Jones. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Uwch Swyddog Adnoddau Dynol (CW),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr T Ll Hughes MBE ac A M Jones. |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Neb |

---

### 1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Gwnaed datganiad o ddiddordeb personol a diddordeb sy'n rhagfarnu gan y Cynghorydd R Meirion Jones ynghylch Eitem 6, Penodiadau Staff - Dirprwy Brif Weithredwr. Gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth a'r bleidlais ar y mater.

### 2 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref, 2019.

### 3 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

### 4 PENODIADAU STAFF

**Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff**

Cafodd yr ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ei gyfweld a'i ystyried gan y Pwyllgor Penodi fel darpar ddeilydd y swydd Pennaeth Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff.

Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeisydd ac atebodd gwestiynau arno ynghyd â chyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor.

Yn dilyn y cyfweliad, **PENDERFYNODD y Pwyllgor benodi Mr Huw Percy i'r swydd uchod.**

## 5 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r isod:-**

**"Penderfynwyd o dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.**

## 6 PENODIADAU STAFF

**Dirprwy Brif Weithredwr**

Cafodd y ddau ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer eu hystyried gan y Pwyllgor Penodi fel darpar ddeiliaid swydd y Dirprwy Brif Weithredwr.

Cafwyd cyflwyniadau gan yr ymgeiswyr ac atebodd y ddau gwestiynau arnynt ynghyd â chyfres o gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor. Cafwyd atborth gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid ar y broses asesu a oedd yn cynnwys profion seicometrig ynghyd â chyfweliadau proffesiynol a gynhaliwyd gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid.

Yn dilyn y cyfweliadau penderfynodd y Pwyllgor Penodi **argymell i'r Cyngor llawn y dylid penodi Mr Dylan Williams i'r swydd uchod o ddyddiad i'w gytuno arno.**

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD**